# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.02.20 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Jenny Warne, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 08.01.20 fel rhai cywir.
**Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.01.20):**
   a) **Dathlu Diwrnod VE -** Fran Pridding ddim yn gallu mynychu'r cyfarfod i drafod ymhellach.
   Nodwyd hefyd nad oedd wedi sefydlu grŵp hyd yma, i drefnu dathliad Diwrnod VE ym Mis Mai.
   Cyngor Cymuned angen fwy o wybodaeth a manylion ganddi.

   b) **Meysydd Parcio yn Llwyngwril** - ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â marcio'r meysydd parcio gyda llinellau gwyn. Gobeithio bydd y gwaith yma yn cael ei drefnu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

   c) **Llwybr lan y môr ger Llwybr y Perthi –** cyfarfod safle wedi ei drefnnu at 18.02.20 hefo aelodau o'r Cyngor Cymuned, Swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru, Swyddog o Adran Llwybrau Cyhoeddus ag Adran yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd, i drafod cyflwr y llwybr, a beth sydd angen ei drefnu i wneud y llwybr yn ddiogel i bawb gerdded arno.
   Gan fod y llwybr / tir dan sylw yn safle SSSI, bydd angen gwneud cais am drwydded arbennig hefo Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud unrhyw waith / addasiadau i'r llwybr graean bras yma.
   Cyngor Cymuned i ystyried talu am y drwydded.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Rhaglen Waith Cyngor Gwynedd** ar gyfer Mis Chwefror 2020 wedi ei derbyn – newid colofnau a lampau stryd.
   b) **Ceir yn parcio ar ochr y ffordd ag ar y palmentydd yn y pentref yn broblem ac yn beryglus** - ateb wedi ei dderbyn gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cadarnhau fod pryderon y cyngor cymuned ynglŷn â pharcio yn y pentref yn derbyn sylw Heddlu Gogledd Cymru.
   c) **Aelodaeth Un Llais Cymru** – 2020/21 = £132.00 ➞ pawb yn cytuno i adnewyddu'r aelodaeth.
   d) **Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd** – cais am gyfraniad ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cais ➞ **£25.00. Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Geraint Edwards.
   e) **Ambiwlans Awyr Cymru i Blant** - cais am gyfraniad ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cais ➞ **£100.00. Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Huw Davies.
   f) **Ciosg BT yn Llwyngwril** - llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gan BT ynglyn ag ymgynghoriad ffurfiol i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus yn yr ardal.
   **Penderfyniad** ➞ **gwrthwynebu i ddileu'r ffôn yma**. Gan fod Ciosg BT wedi ei leoli ochr allan y Cael Chwarae yn Llwyngwril - hoffai aelodau'r Cyngor Cymuned wrthwynebu cael gwared â'r Ciosg BT yma.
   g) **Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambren** - 20.03.20 yn Y Ganolfan, Porthmadog
      - anfon manylion y cyfarfod ymlaen i Louise Hughes.
      - gofyn i Network Rail am ddiweddariad o'r gwaith arfaethedig ar y wal a'r rhwystrau diogelwch ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog?
      - gofyn i NWR/YCG os fydd y gwaith yma'n cael ei gychwyn ym Mis Mai 2020, fel ag yr addawyd?
      - gadael NWR a YCG wybod fod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'r cyflymder 30mya dros dro ar y darn hwnnw o'r ffordd.

6. **Materion Cynllunio**:
   a) **Cais: NP5/69/45B -** Tŷ ar y Bryn, 3 Gwastadgoed Isaf, Llwyngwril, LL37 2LA
   Adeiladu balcony a dihangfa dân.
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud – i fonitro'r gyllideb.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Ionawr 2020 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Huw Davies.

- Manylion Taliad wedi ei derbyn gan Gyngor Gwynedd am dorri gwair y llwybrau cyhoeddus 2019/20 = £233.14.
- Derbynneb wedi ei derbyn gan Gyngor Gwynedd am waith torri gwair y cae chwarae 2019/20 = £948.00.
- Prisiau wedi eu derbyn ynglŷn â "contract dal y tyrchod" yn y Cae Chwarae yn Llwyngwril - gan Stuart Messer a Geraint Micah a Grace Greenow.
  **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gynnig y gwaith i Geraint Micah, ond adolygu'r contract mewn 12 mis.
  **Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Kevin Goodchild.

❖ ***Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod y prisiau a phwy i roi'r contract i.***

**a)** Siec 100767 – Aelodaeth Un Llais - £132.00
**b)** Siec 100768 – Ffermwyr Ifanc Meirionnydd = £25.00
**c)** Siec 100769 – Geraint Edwards – talu am y Goleuadau Nadolig = £81.85
**d)** Siec 100770 – Y Ganolfan - £1,000.00
**e)** Siec 100771 – Ambiwlans Awyr - £250.00
**f)** Siec 100772 – Mynwentydd Llangelynnin - £500.00
**g)** Siec 100773 – Ambiwlans Awyr i Blant - £100.00.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**

- Adroddiad wedi ei dderbyn gan David Griffiths wedi iddo fynychu cyfarfod Y Ganolfan yn ddiweddar.
  Trafodwyd ? gadael cwn i mewn i'r Ganolfan → penderfyniad i'w wneud yng nghyfarfod AGM Y Ganolfan.
  Goleuadau â'r projector newydd yn gweithio. Angen addasu'r amser gwresogi ag y clociau.
  Planiau'r gegin newydd ag yr addurno wedi eu trafod.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall**:
    a) **Archwiliad Mewnol 2019/20 -** pawb yn gytûn i ofyn i Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwiliad.
    b) **Polisi Iaith y Cyngor Cymuned -** wedi ei adolygu.
    c) **Ceisio Prisiau -** cynnal a chadw'r Llwybrau Cyhoeddus, Cof Golofn, Crynwyr a'r Cae Chwarae - cyn Mis Ebrill 2020.
    **Penderfyniad** ➞ gofyn am 4 bris arwahan gan: Gyngor Gwynedd, David Griffiths a Geraint Micah.

❖ ***David Griffiths a Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan eu bod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod pwy i ofyn am bris.***

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 11.03.20 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**